



## ADRODDIAD ARIANNOL Y CYNGOR

### Cefndir Statudol

Sefydlwyd Amgueddfeydd ac Oriolau Cenedlaethol Cymru (AOCC) drwy Siarter Brenhinol fel Amgueddfa Genedlaethol Cymru (yr Amgueddfa) ym 1907. Mae AOCC yn elusen gofrestrdig annibynnol, ac fel Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (CCNC), caiff ei ariannu'n bennaf drwy gymhorthdal grant gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Ein hamcan craidd yw *'hybu addysg y cyhoedd'* trwy ddatblygu ein casgliadau, gofalu amdanynt, eu hastudio a'i gwneud yn hawdd i bobl eu mwynhau er budd y gymdeithas, a hynny am byth. Mae'r Siarter (1907, diwygiwyd 1991) yn nodi y dylid cyflawni hyn:

*'yn bennaf drwy ddarlunio'n llwyr ddaeareg, mwynoleg, sŵoleg, botaneg, ethnograffeg, archaeoleg, celfyddyd, hanes a diwydiannau arbennig Cymru ... drwy gasglu, diogelu, egluro, cyflwyno a chyhoeddi pob gwrthrych a pheth.'*

### Nodau ac Amcanion

Dyma nodau ac amcanion cyfoes AOCC:

- Hybu dealltwriaeth a gwybodaeth eang am dreftadaeth a diwylliant Cymru a'i rôl yn natblygiad a hanes y byd.
- Rhoi gwasanaeth amgueddfa genedlaethol i Gymru, sy'n ganolfan ragoriaeth ryngwladol. Gofalu am ein casgliadau cynyddol o fri a phwys cenedlaethol a rhyngwladol yn y ffordd orau bosibl.
- Trwy ein casgliadau a'n harbenigedd, annog pobl i ymchwilio, astudio a gwerthfawrogi'r celfyddydau, y dyniaethau, y gwyddorau a thechnoleg.
- Ysbrydoli cynulleidfa sy'n tyfu o hyd i ymweld â'n hamgueddfeydd rhagorol ac elwa ar eu hadnoddau a'u cyfleusterau amrywiol.
- Datblygu ein holl adnoddau yn ddoeth, a'u defnyddio yn greadigol ac effeithiol, gan fod yn ddarbodus a sicrhau y cawn werth ein harian.

Mae'r nodau hyn yn cyd-fynd â gweledigaeth strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru a ddisgrifir yn Cymru: Gwlad Well. Y rhan o'r weledigaeth hon sydd fwyaf perthnasol i AOCC yw *'cryfhau hunaniaeth ddiwylliannol Cymru a helpu i greu gwlad ddwyieithog'*.

### Aelodaeth y Lllys, y Cyngor a'r Bwrdd Rheoli

Ym 1991, cafodd AOCC, sy'n elusen gofrestrdig (Rhif Elusen 525774, Rhif TAW GB 783 4541 10), Siarter Brenhinol a Statudau atodol newydd. Roedd y Siarter newydd yn newid cyfansoddiad Lllys a Chyngor AOCC ac yn cadarnhau mai 'Amgueddfa Genedlaethol Cymru' ('The National Museum of Wales') yw'r corff corfforaethol sy'n olynu'r corff a enwyd yn y Siarter gwreiddiol. Diwygiwyd y Siarter yn 2000 i gydnabod awdurdod Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Yr awdurdod gweithredol yw'r Cyngor ac mae'n gyfrifol am reoli a gweinyddu cyllid ac eiddo AOCC, sef yr holl arian a ddaw oddi wrth y Cynulliad neu o ffynonellau eraill, a'r holl diroedd, adeiladau, neu roddion mewn da a roddir ar ran y sefydliad. Mae'r Cyngor yn cwrdd yn gyhoeddus yn gyson er mwyn trafod ei fusnes. Mae hefyd yn dirprwyo awdurdod i wahanol is-bwyllgorau. Y Bwrdd Rheoli sy'n ymdrin â materion gweithredol bob dydd.

---

Aelodau'r Cyngor yw Ymddiriedolwyr yr Elusen a chaiff y bobl hyn eu penodi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, y Llys a'r Cyngor, mewn niferoedd a bennir yn y Siarter. Mae egwyddorion penodi agored fel a nodir yn Adolygiad Nolan yn cael eu gweithredu ym mhob achos. Mae pob un newydd a benodir yn dilyn rhaglen gyflwyno yn fuan ar ôl eu penodi. Nid yw aelodau o'r Cyngor a'r Llys yn derbyn unrhyw dâl gan AOCC.

Mae manylion aelodau'r Llys a'r Cyngor a enwebwyd yn ystod y flwyddyn hyd ddyddiad yr adroddiad hwn, gan gynnwys y rhai sydd wedi ymadael ac wedi ymuno, mewn ychwanegiadau at yr adroddiad hwn. Cedwir manylion unrhyw gwmnïau y maent yn gyfarwyddwyr arnynt a buddiannau sylweddol eraill mewn Cofrestr Buddiannau sydd ar gael i'r cyhoedd.

Mae manylion y Bwrdd Rheoli yn yr adroddiad hwn. Caiff pob aelod o'r Bwrdd Rheoli eu penodi trwy gystadleuaeth agored a'u cyflogi dan Amodau a Thelerau Cyflogaeth safonol AOCC, sy'n berthnasol i'r holl staff. Caiff taliadau'r Cyfarwyddwr Cyffredinol eu cytuno gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru ar wahân. Mae manylion y taliadau a wnaed i Fwrdd y Rheolwyr yn Nodyn 7 i'r Cyfrifon.

### **Newidiadau Arfaethedig i'r drefn Llywodraethu**

Yn 2004-05, cynhaliodd AOCC adolygiad sylfaenol o'i nodau ac amcanion gyda'r bwriad o ffurfio Gweledigaeth ar gyfer yr 21ain ganrif – *Creu'r Dyfodol Gyda'n Gilydd*. Roedd yr adolygiad yn cynnwys ymgynghoriad eang gydag ymwelwyr a budd-ddeiliaid a chymerwyd camau breision wrth baratoi argymhellion ar gyfer diwygio trefn llywodraethu AOCC.

Cafwyd cytundeb i ddirwyn Llys AOCC i ben, ac mae'r Llys yn fodlon ar y corff/cyrff arfaethedig a fydd yn cymryd ei le. At hynny, cafwyd cytundeb Llywodraeth y Cynulliad i'r argymhellion ar gyfer penodi Ymddiriedolwyr newydd i'r Elusen.

Bydd angen Siarter diwygiedig i adlewyrchu'r newidiadau hyn. Bydd hyn yn gofyn am ddilyn prosesau ymgynghori pwrpasol gyda'r Comisiwn Elusennau a chael cymeradwyaeth y Cyfrin Gyngor. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau cytundeb ar y cynllun ymgynghori y bydd AOCC yn ei sefydlu i gymryd lle'r Llys. Nod y cynllun arfaethedig yw:

- Creu fforwm ymgynghori ystyrion ar gyfer budd-ddeiliaid yr Amgueddfa.
- Darparu barn a chynghor i AOCC ar gyfer ei ddatblygiad a'i weithredoedd, yn arbennig wrth roi'r Weledigaeth ar waith.
- Bod yn ddarbodus, h.y. rhaid i'w gostau adlewyrchu'r buddiannau y mae'n eu rhoi.
- Cadw cysylltiad gyda'r Llys presennol, er mwyn sicrhau dilyniant.

Yn ystod y flwyddyn, cyflawnodd Llywodraeth y Cynulliad adolygiad o bob Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (CCNC) yng Nghymru, gan arwain at y penderfyniad y dylai AOCC aros hyd braich oddi wrth y Llywodraeth. Tra bo AOCC yn croesawu'r penderfyniad, mae'n gwerthfawrogi'n fawr y berthynas waith agos sydd wedi datblygu gyda'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon yn Llywodraeth y Cynulliad. Eto eleni, mae cefnogaeth y Llywodraeth i waith AOCC wedi bod yn amhrisiadwy.

### **Safleoedd AOCC**

Yn 2004-05 roedd AOCC yn gweithredu amgueddfeydd yn uniongyrchol ar chwe safle ledled Cymru:

Yr Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol (AOG), Parc Cathays, Caerdydd  
Amgueddfa Werin Cymru (AWC), Sain Ffagan, Caerdydd  
Amgueddfa'r Lleng Rhufeinig (ALIR), Caerllion, Casnewydd



Amgueddfa Lechi Cymru (ALC), Llanberis, Gwynedd  
Yr Amgueddfa Wlân Genedlaethol (AWG), Dre-fach Felindre, Sir Gaerfyrddin  
Pwll Mawr: Amgueddfa Lofaol Genedlaethol Cymru (PM), Blaenafon, Torfaen

Mae gan AOCC Ganolfan Gasgliadau Genedlaethol yn Nantgarw, Rhondda Cynon Taf hefyd.

Yn ogystal, ar hyn o bryd mae gennym drefniadau partneriaeth gyda sefydliadau lleol i reoli dau safle arall sef:

Amgueddfa Rufeinig Segontium, Caernarfon, Gwynedd  
Oriol Tŷ Turner, Penarth, Bro Morgannwg

Yn 2004-05, cafwyd ffigurau ymwelwyr sylweddol uwch yn sgil cwblhau datblygiadau helaeth mewn dwy o'n hamgueddfeydd (AWG a PM). Yr un pryd, mae'r gwaith i ddatblygu amgueddfa diwydiant a môr genedlaethol newydd yn ardal forwrol Abertawe'n agosáu at ei derfyn.

#### *Pwll Mawr*

Yn dilyn ailddatblygiad gwerth £7.1m, ail-agorodd y Pwll Mawr i'r cyhoedd yn Chwefror 2004. O ganlyniad i'r buddsoddiad hwn, croesawodd y Pwll Mawr 145,898 o ymwelwyr yn erbyn targed o 130,000 (+12%) a 28,195 yn fwy o ymweliadau nag yn 2003-04 (+24%). Coronwyd y gamp yma ym Mehefin 2005 pan enillodd y Pwll Mawr £100,000 a gwobr Gulbenkian am Amgueddfa'r Flwyddyn – gwobr ddiwylliannol fwyaf Prydain.

#### *Amgueddfa Wlân Genedlaethol*

Ar ôl bod ar gau am ddwy flynedd ar gyfer rhaglen o fuddsoddiad ac ailddatblygiad gwerth £2.6m, ail-agorodd yr Amgueddfa Wlân Genedlaethol ar 31 Mawrth 2004. O ganlyniad i'r buddsoddiad hwn, croesawodd yr amgueddfa 18,927 o ymwelwyr yn 2004-05. Dyma gynnydd o 110% ar ffigurau 2000-01, sef y flwyddyn olaf cyn cyflwyno mynediad am ddim.

#### *Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe*

Roedd y cynlluniau ailddatblygu yn y Pwll Mawr a'r Amgueddfa Wlân Genedlaethol yn rhan annatod o'n strategaeth ddiwydiannol. Gyda chymorth Llywodraeth Cynulliad Cymru a phartneriaid ariannu eraill, buddsoddwyd rhyw £40 miliwn i ddathlu treftadaeth ddiwydiannol Cymru, gan gynnwys datblygu Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn Abertawe (AGGA).

Gwnaed yr adeilad yn ddiddos ddechrau'r flwyddyn, a daeth Prif Weinidog Cymru, y Gwir Anrh. Rhodri Morgan, a'r Gweinidog dros Ddiwylliant,, Alun Pugh AC gynnau'r pŵer i ddathlu'r achlysur.

Caiff yr Amgueddfa newydd ei hagor yn swyddogol ar 17 Hydref 2005 i gyd-fynd â dathliadau 200-mlwyddiant Brwydr Trafalgar. Gwnaeth diwydiannau Cymreig gyfraniad sylweddol at lwyddiant llynges Prydain yn y frwydr.

#### **Fformat y Cyfrifon**

Caiff y cyfrifon eu paratoi o dan Adran 9(4) o Ddeddf Amgueddfeydd ac Oriolau 1992 ar ffurf a bennir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyda chymeradwyaeth y Trysorlys. Mae copi o'r Gyfeireb Cyfrifon ar gael drwy wneud cais i Gyfarwyddwr Cyllid yr Amgueddfa. Mae cyfrifon AOCC yn cyd-fynd â gofynion y Datganiad o Arferion Cymeradwy (SORP 2000) 'Cyfrifo ac Adrodd gan Elusennau', ac at ddibenion y SORP, Adroddiad Ariannol y Cyngor yw Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr. Daeth Datganiad o Arferion Cymeradwy newydd (SORP 2005) i rym ar gyfer cyfnodau cyfrifo yn cychwyn ar neu ar ôl

---

1 Ebrill 2005, a bydd yn arwain at rai newidiadau wrth gyflwyno'r ffigurau yng nghyfrifon y flwyddyn nesaf.

O fewn ffigurau cyfunol AOCC mae canlyniadau masnachu'r is-gwmni sy'n llwyr eiddo i AOCC sef Mentrau Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru Cyf. Y cwmni yma sy'n gweithredu'r mwyafrif llethol o weithgareddau masnachu'r Amgueddfa. Hefyd wedi'u cynnwys o fewn ffigurau AOCC mae ei gyfran o 50% o Amgueddfa Genedlaethol y Glannau Abertawe Cyf., menter ar y cyd â Chyngor Dinas a Sir Abertawe, gyda'r nod o ddatblygu'r amgueddfa newydd yn y ddinas.

### **Canlyniadau a Chyllid**

Daeth gwerth £6,371,000 o adnoddau cyfunol net i mewn i AOCC cyn costau enwol (£4,940,000 yn 2003-04). Daeth cyfanswm o £24,797,000 o adnoddau i mewn i AOCC (£24,983,000 yn 2003-04) a gwariwyd cyfanswm o £24,310,000 (£24,411,000 yn 2003-04). Y cynnydd net mewn cyllid ar gyfer y flwyddyn ar ôl cymryd yr holl enillion a cholledion wedi, a heb eu gwireddu i ystyriaeth oedd £22,799,000 (cynnydd net o £6,762,000 yn 2003-04). £100,085,000 oedd balans y gronfa ar 31 Mawrth 2005 (£77,286,000 ar 31 Mawrth 2004). Cofnododd Mentrau AOCC Cyf. elw o £302,228 cyn cymorth rhoddion i'r Amgueddfa ar gyfer blwyddyn ariannol 2004-05 (£69,289 yn 2003-04).

### **Dangosyddion Perfformiad**

Roedd y Cynllun Gweithredol AOCC ar gyfer 2004-05 yn cynnwys nifer o ddangosyddion y gellid mesur perfformiad yn eu herbyn. Ond mae'r Amgueddfa wedi bod yn astudio addasrwydd rhai o'r dangosyddion hyn fel ffordd o fesur llwyddiant ei nodau ac amcanion. O ganlyniad, ni osododd Llywodraeth y Cynulliad dargedau dangosyddion perfformiad sylfaenol yn ei Lythyr Gorchwyl ar gyfer 2004-05. Ond mae'n dda nodi cynnydd yng nghyfanswm nifer yr ymwelwyr i'r Amgueddfeydd, sef cyfanswm o 1,318,000 yn erbyn targed o 1,250,000, a ffigwr o 1,222,000 yn 2003-04. Yn yr un modd, cododd nifer yr ymweliadau â'r wefan i 962,000 yn erbyn targed o 826,000 a ffigwr o 719,000 yn 2003-04. Mae gwybodaeth fanwl bellach ar weithgareddau AOCC yn ei Adroddiad Blynyddol, a ddylai gael ei ddarllen ynghyd â'r Adroddiad Ariannol hwn.

### **Perfformiad Talu'n Brydlon**

Mae AOCC yn cefnogi amcanion côd ymarfer *Better Payment* Trysorlys ei Mawrhydi a'i nod yw talu anfonebau dilys o fewn 30 diwrnod. 14 diwrnod oedd y cyfnod cyfartalog ar gyfer talu anfonebau yn ystod 2004-05 (12 diwrnod yn 2003-04), sy'n cynnwys 91% o anfonebau a dalwyd o fewn 30 diwrnod (95% yn 2003-04). Gosod system rheoli cyllid newydd yn ystod ail hanner y flwyddyn achosodd y gostyngiad bychan mewn perfformiad wrth dorri ar draws y dulliau prosesu arferol. Gwnaed un taliad llog am swm o £14.27 o dan Ddeddf Hwyr-dalu Dyledion Masnachol (Llog) 1998.

### **Codi Arian a Gwirfoddoli**

Daeth y rhan fwyaf o'r incwm a'r addewidion a gafwyd yn ystod y flwyddyn o bob math o ffynonellau'r Llywodraeth a rhai cyhoeddus eraill, Ymddiriedolaethau a Sefydliadau, cwmnïau ac unigolion, ar gyfer Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe (£688k), a phroject addysg Ar Dir Cyffredin (£330k). Parhaodd yr Amgueddfa i gael incwm grant ar gyfer dau broject mawr arall, sef y Pwll Mawr: Amgueddfa Lofaol Genedlaethol Cymru (£75k) a'r Amgueddfa Wlân Genedlaethol (£69k).



Parhaodd y rhaglen arddangosfeydd dros dro yn yr Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol, a'r gweithgareddau addysg cysylltiedig, i ddenu cyllid gan gwmnïau a'n cefnogwyr gwirfoddol, y Cyfeillion.

Mae'r Cyfeillion yn cefnogi gwaith yr Amgueddfa mewn tair ffordd – yn gyntaf, wrth genhadu dros waith yr Amgueddfa, cynnig rhaglen o sgysiau, teithiau a gweithgareddau eraill sy'n cefnogi gweithgareddau addysgiadol yr Amgueddfa ei hun.

Yn ail, mae'r Cyfeillion yn darparu grŵp o wirfoddolwyr sy'n cefnogi gweithgareddau'r Amgueddfa ei hun. Ar gyfartaledd, mae aelodau'r grŵp yn cynnig, 2-6 awr person bob dydd ar adegau prysur (e.e. yn ystod arddangosfeydd, pan fo gwirfoddolwyr yn cyfarfod ac yn croesawu grwpiau ac unigolion, fel grwpiau Cyfeillion o Amgueddfeydd eraill, ymwelwyr achlysurol ac ati) a 2-10 awr person yr wythnos (e.e. wrth gynorthwyo staff curadurol ar draws holl gwmpas gweithgareddau'r Amgueddfa). Mae'n bwysig nodi bod yr Amgueddfa'n gweld gweithgarwch o'r fath fel ychwanegiad gwerthfawr yn hytrach na gwneud gwaith craidd yn wirfoddol pan fo cymhwysedd yn isel.

Yn drydydd, mae'r Cyfeillion hefyd yn rhoi cymorth ariannol i brojectau amrywiol, ac eleni cyfrannwyd yn hael tuag at fan addysg, grant ymchwil, ychwanegiadau at y casgliadau a Llwybr Natur.

Mae'r Noddwyr yn parhau i gynyddu eu cefnogaeth amhrisiadwy drwy eu haelodaeth, a thrwy waith adfocatiaeth wrth recriwtio cefnogwyr eraill i'r cynllun.

### **Buddsoddiadau Cyfalaf ac Asedau Sefydlog**

Cafodd Cymhorthdal Grant Cyfalaf AOCC ei ddefnyddio ar gyfer amrywiaeth eang o wariant gan gynnwys gwelliannau lechyd a Diogelwch, system reoli cyllid newydd, offer ar gyfer Amgueddfa Genedlaethol y Glannau a chesys arddangos newydd ar gyfer y casgliadau serameg a'r llysieufa. Cwblhawyd y gwaith eleni yn y Pwll Mawr a'r Amgueddfa Wlân Genedlaethol, gyda gwariant o £141k ac £62k yn y drefn honno.

Cychwynnodd y project gofal a mynediad i'r casgliadau yn ystod y flwyddyn, disgwylir iddo gostio £5.2m.

Mae polisiau cyfrifo AOCC yn caniatáu ar gyfer adbrisio asedau yn broffesiynol pob 5 mlynedd, a chânt eu hadbrisio gan ddefnyddio mynegeion yn y cyfamser. Yr unig eithriadau yw asedau TG, nid yw'r rhain yn cael eu mynegeo am fod pris asedau TG yn disgyn dros amser, ac asedau treftadaeth. Nid yw'r asedau treftadaeth a ddaeth i feddiant cyn 1 Ebrill 2001 wedi cael eu cyfalafu ac mae asedau treftadaeth a gafwyd ers y dyddiad hwnnw wedi cael eu cofnodi yn ôl eu cost. Mae'r Ymddiriedolwyr o'r farn bod cost prisio asedau treftadaeth yn afresymol.

### **Caffael Sbesimenau**

Prynwyd dau beth mawr yn 2004-05:

Darlun gan Alfred Sisley o'r enw *Craig Storr – Lady's Cove* a gafwyd ar gost o £326k wedi'i gynorthwyo gan gyfraniad o £100k gan y Gronfa Casgliadau Celf Genedlaethol.

Cerflun serameg gwydrog gan Richard Deacon ar gost o £60k a gafwyd gyda chyfraniad o £20k gan y Gronfa Casgliadau Celf Genedlaethol.

Mae manylion yr holl asedau treftadaeth a ddaeth i feddiant yn ystod y flwyddyn yn Nodyn 10 i'r cyfrifon.

---

## DATBLYGIADAU AR GYFER Y DYFODOL

### **Gweledigaeth AOCC - Creu'r Dyfodol Gyda'n Gilydd**

Dros y blynyddoedd, mae'r Amgueddfa wedi cael enw da am ei hymroddiad i addysg a rhagoriaeth. Dyma'r sylfaen llwyddiant yr Amgueddfa fel 'sefydliad dysg'. Mae'n denu rhai o'r curaduron mwyaf proffesiynol a medrus ym Mhrydain, mae'n estyn allan at ysgolion a phrifysgolion ac yn trosglwyddo gwybodaeth am y casgliadau nôl i'r cyhoedd. Dros y degawdau nesaf, bydd yr Amgueddfa yn cael ei adnabod, i'r un graddau, am berthnasedd i gymdeithas a dyfeisgarwch. Yn rhan o'r agenda mae cynrychioli amrywiaeth hunaniaeth ddiwylliannol Cymru, hybu cynladwyedd yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, a chefnogi'r gwaith o greu gwlad gwbl ddwyieithog. Mae cymorth ac ymrwymiad ein budd-ddeiliaid yn rhan annatod o'r ffordd y mae'r materion cyfoes hyn yn cael eu trafod a'u cyflwyno mewn ffordd ffres ac ymestynnol.

Yn ystod Gwanwyn 2005, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus sylweddol er mwyn casglu safbwyntiau, sylwadau a breuddwydion ein budd-ddeiliaid ar ein Gweledigaeth ar gyfer y dyfodol, dan y teitl *Creu'r Dyfodol Gyda'n Gilydd*. Cymrodd tua 1,300 o bobl ran yn y broses a bydd yr ymateb a gafwyd yn dylanwadu ar ein cynlluniau ar gyfer y ddeng mlynedd nesaf ynglŷn â'r casgliadau, yr amgueddfeydd a budd-ddeiliaid. O ganlyniad, rydyn ni'n edrych ymlaen at roi'r trefniadau newydd ar gyfer ymgynghori a chyfrannu ar waith er mwyn sicrhau ein bod ni'n parhau i greu a mowldio dyfodol amgueddfeydd cenedlaethol Cymru gyda'n gilydd; yn parhau â'r datblygiadau cyfalaf sylweddol er mwyn gwella profiadau'r ymwelwyr yn yr Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol, yr Amgueddfa Werin ac Amgueddfa'r Lleng Rhufeinig; ac yn datblygu a chyflwyno'r casgliadau er mwyn creu amrywiaeth ehangach fyth o brofiadau dysgu cofiadwy, yn ein hamgueddfeydd ac yn y byd ehangach.

### **Datblygiadau yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe (AGGA)**

Mae AGGA yn cael ei ddatblygu ar y cyd â Dinas a Sir Abertawe fel project a fydd yn costio £33m. Bydd yr amgueddfa newydd yn cymryd lle hen Amgueddfa Diwydiant a Môr Cymru (ADMC) ac Amgueddfa Diwydiant a Môr Abertawe.

Cyflwynwyd ceisiadau am grantiau i gyrff cyllido er mwyn manteisio i'r eithaf ar y symiau a gafwyd o werthu safle ADMC. Cafwyd grantiau sylweddol gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri (£11.1m), Cronfeydd Amcan 1 yr UE (£2.6m, a gaiff ei ddilyn gan £1.1m pellach), Awdurdod Datblygu Cymru (£2.5m) a Bwrdd Croeso Cymru (£1.6m). Ar ddiwedd y flwyddyn roedd angen codi £2.2m pellach, ond mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cytuno i roi £6m i warantu'r project, gan gynnwys cymorth llif arian.

Mae'r gwaith yn parhau. Mae seilwaith yr adeilad wedi ei gwblhau a'r gwaith o osod yr arddangosfeydd yn mynd yn ei flaen yn dda. Disgwylir i'r Amgueddfa newydd gael ei throsglwyddo i AOCC ym mis Awst er mwyn profi'r adeilad, a chaiff yr Amgueddfa ei hagor yn swyddogol ar 17 Hydref 2005.

### **Project Gofal a Mynediad**

Mae Cyngor AOCC wedi cytuno ar strategaeth a fydd yn golygu buddsoddi mewn gofal a mynediad i'r casgliadau ledled safleoedd yr Amgueddfa, yn fwyaf nodedig yn yr Amgueddfa Werin a'r Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol, yn ogystal â'r Ganolfan Gadwraeth a Mynediad yn Nantgarw. Bydd hyn yn bodloni mwyafrif llethol amcanion AOCC o ran gofalu am y casgliadau, yn ogystal â dod a manteision ehangach o ran mynediad a lleihau'r angen am wahanu casgliadau oddi wrth eu hamgueddfeydd a'r staff sy'n gofalu amdanynt yn sylweddol. Mae hyn yn cyd-fynd ag argymhellion Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar Reoli Casgliadau yn AOCC, sy'n argymhell y dylid



ystyried materion cadwraeth a storio ochr yn ochr â materion hygyrchedd.

Mae cyfanswm cost y Cynllun yn debygol o fod tua £5.2m, gyda £3.5m oddi wrth Llywodraeth y Cynulliad. Gwnaed cais Rhan I am £1m i Gronfa Dreftadaeth y Loteri ar gyfer y rhannau o'r cynllun fydd yn digwydd yn yr Amgueddfa Werin, a disgwylir cael ymateb yn yr hydref. Mae'r gwaith wedi dechrau ar rai elfennau o'r cynllun, a disgwylir ei gwblhau yn 2007-08.

### **Gwelliannau i'r Ystâd**

Mae AOCC wedi cwblhau adolygiad cynhwysfawr o safon ei ystâd, sydd wedi dangos y byddai angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol er mwyn clirio'r llwyth o waith atgyweirio a chynnal-a-chadw sydd wedi cronni dros nifer o flynyddoedd oherwydd diffyg cyllid cyfalaf. Ers hynny mae Llywodraeth y Cynulliad wedi dyrannu £3m dros dair blynedd i fynd i'r afael â nifer o'r materion hyn mewn ffordd strategol. Penodwyd cwmni rheoli project i oruchwylio'r gwaith o gaffael y gwaith yma, ac mae cynllun project manwl yn cael ei ddatblygu er mwyn sicrhau bod y gwaith angenrheidiol yn cyd-fynd â phrojectau cyfalaf eraill yr amgueddfa.

### **Y Polisi ar Gronfeydd Cadw**

Fel corff sy'n casglu ac yn cynnal casgliadau er mwyn cyflawni ei nodau a'i amcanion, mae'r polisi ar gronfeydd cadw'n berthnasol i gronfeydd arian i'w wario yn unig.

Ar hyn o bryd, mae'r polisi'n dibynnu ar awdurdod Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Ddatganiad Rheolaeth a Memorandwm Cyllid AOCC sy'n cyfyngu ar y cronfeydd cadw i 5% o'i gyllideb. Mae hyn wedi codi o 2% o ddiwedd blwyddyn ariannol 2004-05 ymlaen. Dyma newid sydd i'w groesawu'n gynnes am ei fod yn helpu i ddiddymu'r arfer o wario mwy o arian ar ddiwedd blwyddyn ariannol ac am ei fod e'n galluogi AOCC i ddefnyddio balans diwedd y flwyddyn i leihau baich yr addasiadau i'r gyllideb o flwyddyn i flwyddyn ac i gyfrannu at ddatblygiadau cyfalaf sy'n croesi dyddiadau diwedd blwyddyn.

Mae cronfeydd preifat yn cael eu cynnal ar wahân a'u nodi yn y cyfrifon. Nid oes unrhyw derfyn cario drosodd ar y rhain, a pholisi AOCC yw adeiladu'r cronfeydd hyn a'u defnyddio ar brojectau a chynlluniau cyfalaf nad ydynt yn derbyn cyllid craidd.

Caiff elw'r is-gwmni masnachol sy'n llwyr eiddo i AOCC, sef Mentrau AOCC Cyfyngedig, ei ddefnyddio i ddarparu cyllid ychwanegol i dalu am nodau ac amcanion yr Amgueddfa. Ar adegau gall hyn olygu bod yr elw'n cael ei ail-fuddsoddi yn yr is-gwmni masnachu er mwyn gwella rhagor ar y canlyniadau masnachu. Bydd y trefniadau i drosglwyddo'r elw i'r Amgueddfa'n rhoi sylw priodol i gadw goblygiadau treth y gwaith masnachu mor isel â phosibl.

Mae AOCC yn paratoi cynllun tymor hir o ddatblygiadau cyfalaf ac adnewyddu ar ei safleoedd yn sgil proses y Weledigaeth. Er mwyn cyllido'r datblygiadau hyn yn rhannol, mae'n hanfodol bod yr hyblygrwydd mwyaf posibl yn hyn o beth, wrth gario arian ymlaen a chadw elw masnachol.

Cyfanswm Cronfeydd AOCC ar 31 Mawrth 2005 oedd £100,085,000. Mae dadansoddiad yn y nodiadau i'r Cyfrifon Ariannol.

### **Polisi a Pherfformiad Buddsoddiadau**

Yr ymgynghorwyr buddsoddi annibynnol, Gerrard Cyf. sy'n buddsoddi cronfeydd preifat AOCC ar ei ran. Rydyn ni'n ddarbodus o ran risgiau, caiff y cronfeydd eu buddsoddi mewn portffolio risg canolig ac mae elfen sylweddol yn cael ei chadw mewn

---

buddsoddiadau arian parod. Caiff perfformiad y cronfeydd hyn ei adolygu'n rheolaidd. Cododd gwerth y portffolio o £1,524k i £1,696k yn ystod y flwyddyn. Roedd hyn ychydig yn uwch na chyfartaledd cynnydd buddsoddiadau o'r fath.

At hynny, cadwodd AOCC rodd a gafodd fel buddsoddiad ecwiti mewn deg cwmni da. Cododd gwerth y portffolio hwn o £65k i £73k yn ystod y flwyddyn.

### **Rheoli Risg**

Mae Cyngor, Pwyllgorau a Chyfarwyddwyr AOCC yn ystyried y risgiau strategol, busnes a gweithredol sylweddol y mae'r Amgueddfa yn eu hwynebu yn barhaus ac mae wedi sefydlu Grŵp Rheoli Risgiau er mwyn sicrhau bod unrhyw beryglon yn cael eu hadolygu a'u nodi a bod trefniadau yn bodoli i leihau unrhyw risgiau sy'n codi. Bu'r mesurau hyn ar waith drwy gydol y flwyddyn yn unol â chanllawiau Pwyllgor Turnbull ac SORP 2000. At hynny, mae'r holl risgiau'n cael eu hadolygu bob blwyddyn fel rhan annatod o'r broses cynllunio corfforaethol, ac maen nhw'n bwydo'r cynllun archwilio mewnol.

### **Rhwymedigaethau Pensiwn**

Mae gan AOCC gynllun pensiwn â buddion diffiniedig sydd ar gael i'r holl staff parhaol. Fel yr adroddwyd llynedd, fel y mwyafrif helaeth o gynlluniau o'r fath, mae cyfuniad o leihad yng ngwerth asedau'r cynllun ar ffurf Buddsoddiadau Ecwiti mewn blynyddoedd diweddar, a ffactorau eraill fel natur gyfnewidiol Bondiau a gwell cyfraddau disgwyliad oes, wedi arwain at ddiffyg ym mhriiad actwariaidd diweddaraf y cynllun.

Caiff manylion am sut caiff costau pensiwn eu cyfrif eu cynnwys yn nodiadau polisiâu cyfrifo'r cyfrifon. Mae nodyn 16 i'r Adroddiad Ariannol yn cynnwys y manylion datgelu y gofynnir amdanynt o dan Ddatganiad Ariannol 17, ac yn cymharu gwerth asedau'r cynllun heddiw â'i rhwymedigaethau posibl. Cyfrifwyd diffyg o £9.353m ar 31 Mawrth 2005. Roedd y gwerth hwn yn cynnwys nifer o ragdybiaethau ar sail canllawiau'r Trysorlys, y mae'n rhaid i AOCC gadw atynt. Mae ymgynghorydd actiwariadd yr Amgueddfa'n credu ei bod hi'n debygol y bydd y diffyg yn cynyddu'n sylweddol os caiff y canllawiau eu haddasu yn ystod y flwyddyn ariannol newydd er mwyn dangos cyflwr y farchnad ar y pryd. Mae datgelu'r diffyg yn llawn, fel sy'n ofynnol o dan FRS17, yn golygu dangos y diffyg yn y Datganiad Cyfunol o Weithgareddau Ariannol a'r Fantolen.

Er na ddaw'r diffyg yn wirionedd am nifer sylweddol o flynyddoedd, dylid nodi bod AOCC yn chwilio am ffyrdd o fynd i'r afael ag e nawr. Gwelwyd cynnydd o 4.5% yng nghyfraniadau'r cyflogwr yn ystod y flwyddyn, a daeth hwb ariannol o du'r Cynulliad ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Ond yr unig ffordd i ennill tir gyda'r diffyg hwn fydd gwelliant sylweddol yn y Farchnad Ecwiti yn ystod y flwyddyn nesaf neu gyfraniad cyfalaf enfawr. Yn y cyfamser, bydd AOCC yn parhau i edrych ar y posibilrwydd o dynnu'r cynllun i mewn i Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil, wrth gymryd rhywfaint o gysur o'r ffaith fod y diffyg yn y cynllun wedi cael ei gynnwys yn y diffyg posibl mewn pensiynau a nodwyd yng nghyfrifon Llywodraeth y Cynulliad, ac ar sicrwydd ysgrifenedig y Cynulliad caiff cyllid ei ddarparu o leiaf hyd at y lleiafswm angenrheidiol er mwyn galluogi AOCC i gyrraedd lefel y cyfraniadau statudol.





## **POLISIÂU STAFF**

### **Cyfleoedd Cyfartal a chyflogi staff anabl**

Mae AOCC yn gweithredu proses benodi di-wahaniaeth ac mae bob amser yn barod i ystyried ceisiadau gan bobl anabl a'u penodi. Yn fwy na hynny, rydyn ni'n gwneud pob ymdrech i sicrhau y darperir y cyfleusterau angenrheidiol i staff anabl fedru gweithio yn effeithiol. Hefyd, mae'r Cynllun Corfforaethol yn cynnwys buddsoddi mewn cyfleusterau cyhoeddus er mwyn sicrhau bod adeiladau a gwybodaeth AOCC yn fwy hygyrch i bobl anabl. Mae gweithgor, dan gadeiryddiaeth un o'r Cyfarwyddwr, yn sicrhau bod AOCC yn cyflawni unrhyw welliannau angenrheidiol i fodloni gofynion y ddeddfwriaeth gwahaniaethu ar sail anabled.

Yn ogystal â'i bolisi ar anabled, mae AOCC yn nodi yn ei bolisi ar Gyfleoedd Cyfartal ei fod 'wedi ymrwymo i ddileu pob math o gamwahaniaethu ac aflonyddu o fewn ei sefydliad'. Mae hyn yn cwmpasu rhyw, statws priodasol, anabled, lliw, hil a chenedl, tarddiad ethnig, cyfeiriadaeth rywiol, cyfrifoldeb teuluol, oedran a ffydd'.

### **Y camau a gymerwyd i gynnal neu ddatblygu'r dulliau o rannu gwybodaeth ac ymgynghori â staff**

Mae AOCC wedi cydymffurfio â Rheolau Gwybodaeth ac Ymgynghori 2005 trwy ffurfioli'r cytundeb oedd yn bodoli eisoes, wedi ei gyd-lofnodi gan yr Undebau cydnabyddedig h.y. PCS, Prospect a'r FDA. Mae hyn yn sefydlu ein safbwynt cyfreithiol, sy'n cael ei ehangu gan bortffolio o brosesau galluogi, gan gynnwys cyfarfodydd staff, cyfarfodydd adran, gweithgorau, e-bost, y fewnwyd a dulliau anffurfiol o gyfathrebu fel y bo'n briodol.

### **Hyfforddi Staff**

Mae AOCC wedi ymrwymo i ddarparu cyfleoedd i ddatblygu a hyfforddi ei holl staff er mwyn sicrhau:

- Eu bod yn gallu cyfrannu at amcanion cyffredinol AOCC mor effeithiol â phosibl
- Bod ganddynt gyfleoedd pwrpasol i ddatblygu'n bersonol a datblygu eu gyrfaoedd
- Eu bod yn cael cefnogaeth ar bob lefel gan reolwyr sydd â'r sgiliau, y wybodaeth a'r dealltwriaeth angenrheidiol
- Eu bod yn cael amrywiaeth o wybodaeth a sgiliau arbenigol a chyffredinol, er mwyn i AOCC ddatblygu gweithlu â sgiliau sylfaenol eang.

### **Polisi Talu**

Mae AOCC yn talu pob aelod o staff trwy system gymeradwy o gyflogau a graddau a gynlluniwyd ac a gyflwynwyd yn benodol i sicrhau triniaeth deg a chyfiawn. Mae hyn yn cymryd lle'r hen system oedd wedi caniatáu anghydraddoldeb yn y berthynas rhwng swyddi a chyflogau ac rhwng cyflogau dynion a menywod. Cafodd y system newydd ei ddatblygu'n fewnol gan weithgor oedd yn cynnwys croesdoriad o staff a chynrychiolwyr yr undebau dan arweiniad yr Adran Adnoddau Dynol sydd wedi cael y cyfrifoldeb o gynnal y system.

Mae'n cwmpasu holl staff AOCC ar bob safle, ac eithrio'r Cyfarwyddwr Cyffredinol (y mae amodau ei benodiad yn cael eu cytuno gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru). Mae proses apêl annibynnol yn gweithredu i edrych ar y system graddio. Bob blwyddyn mae'r Adran Adnoddau Dynol yn ystyried cyflogau AOCC yn erbyn rhai cyffelyb allanol, newidiadau yn yr economi ac unrhyw anghydraddoedau mewnol sydd wedi datblygu. Caiff cylch neu argymhelliad cyflogau ei lunio drwy hyn. Caiff ei gyflwyno i Lywodraeth y Cynulliad am gymeradwyaeth a'i drafod gyda'r Undebau. Mae hyn yn arwain at becyn

---

newydd o gyflogau ac amodau newydd ar gyfer AOCC i gyd, sy'n aros mewn grym hyd at y cylch nesaf o drafodaethau.

### **Polisi Iaith Gymraeg**

Mae AOCC wedi paratoi a gweithredu Strategaeth Prif-ffrydio'r Gymraeg ar gyfer 2004-05 a'r tu hwnt i adlewyrchu ein cefnogaeth gref i strategaeth Llywodraeth y Cynulliad, *Iaith Pawb: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwieithog*.

Mae prif-ffrydio'n golygu ystyried y Gymraeg ym mhob rhan o'n gwaith ac ym mhopeth a wnawn, gyda'r nod o sicrhau ein bod yn manteisio ar bob cyfle i:

- hybu a chefnogi'r Gymraeg a lles siaradwyr Cymraeg
- cyfrannu at weledigaeth Llywodraeth y Cynulliad i greu Cymru ddwyeithog.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi enwi Strategaeth Prif-ffrydio AOCC ar gyfer 2004-05 fel esiampl o arfer dda y dylai Cyrff Cyhoeddus eraill a Noddir gan y Cynulliad ei dilyn. Mae'r strategaeth hon bellach wedi cael ei hadolygu er mwyn adlewyrchu goblygiadau prif-ffrydio Cynllun Gweithredol AOCC ar gyfer 2005-06.

### **Yr Archwilydd**

Archwilydd Cyffredinol Cymru sy'n archwilio'r cyfrifon yn ôl gofynion Adran 9 (8) o Ddeddf Amgueddfeydd ac Oriolau 1992. Mae manylion tâl yr archwilydd ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2005 yn Nodyn 6 i'r Cyfrifon.

### **Prif Swyddfa**

Prif swyddfa AOCC yw: Yr Amgueddfa ac Oriol Genedlaethol, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NP.

### **Prif Ymgynghorwyr**

Bancwyr:	Lloyds TSB Bank CCC, Caerdydd
Cyfreithwyr:	Morgan Cole LLP, Caerdydd
Archwilwyr Mewnol:	PricewaterhouseCoopers LLP, Caerdydd
Rheolwyr Buddsoddiadau:	Gerrard Cyf., Caerdydd
Rheolwyr y Gronfa Bensiynau:	Mercer Human Resource Consulting, Bryste
Trethiant:	Deloitte & Touche LLP, Caerdydd

*Michael Houlihan*  
Swyddog Cyfrifo a Chyfarwyddwr  
Cyffredinol  
Cymeradwywyd a llofnodwyd  
ar 15 Awst 2005

*G. Wyn Howells*  
Trysorydd,  
ar ran y Cyngor  
Cymeradwywyd a llofnodwyd  
ar 15 Awst 2005



---

**LLYS Y LLYWODRAETHWYR**  
(O 1 Ebrill 2004 i 15 Awst 2005)

LLYWYDD  
Paul E. Loveluck CBE, YH

CYN-LYWYDD DIWETHAF  
Mathew Prichard CBE, DL, BA

IS-LYWYDD  
Dr Susan J. Davies BA

TRYSORYDD  
G. Wyn Howells ACIB

AELODAU'R CYNGOR  
nad ydynt yn aelodau o'r Llys  
J. W. Evans CBE, MA  
Yr Athro C. L. Jones OBE, FRSA  
M. A. J. Salter FCA (hyd 28 Hydref 2004)  
Jane Peirson Jones MA, FMA

PENODWYD GAN LYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU  
Dr P. T. Warren CBE, MA  
Linda D. Quinn MSc  
Yr Athro C. Malcolm Parry  
Yr Athro D. Egan (hyd 9 Rhagfyr 2004)  
H. R. C. Williams  
Rhiannon Wyn Hughes MBE

LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU  
Dr R. Brinley Jones

PRIFYSGOL CYMRU  
Mair Waldo Thomas  
Yr Athro J. King

CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU  
Y Cyng. G. Richards

AELODAU SENEDDOL CYMRU  
W. Griffiths AS (hyd 5 Mai 2005)

PENODWYD GANY LLYS  
D. Bowen Lewis  
Dr W. B. Willott CB  
C. Rowland  
H. Mansfield  
Yr Athro J. Last CBE  
Dr Iolo ap Gwynn

---

CYNYRYCHIOLWYR AWDURDODAU LLEOL


Y Cyng. J. G. Jenkins (hyd 2 Chwefror 2005)  
Y Cyng. R. W. Hughes (hyd 2 Chwefror 2005)  
Y Cyng. P. G. Larsen  
Y Cyng. P. M. Thomas  
Dr C. Grace (hyd 2 Chwefror 2005)  
Y Cyng. R. Francis-Davies (hyd 2 Chwefror 2005)  
Y Cyng. D. Rogers (hyd 2 Chwefror 2005)  
Y Cyng. J. A. H. Harries (hyd 2 Chwefror 2005)  
Y Cyng. R. Cass (hyd 2 Chwefror 2005)  
Y Cyng. R. H. Poole  
Y Cyng. J. Huish (hyd 2 Chwefror 2005)  
Y Cyng. D. I. Bowen  
Y Cyng. J. Austin (o 2 Chwefror 2005)  
Y Cyng. R. G. Harris (o 2 Chwefror 2005)  
Y Cyng. J. Major (o 2 Chwefror 2005)  
Y Cyng. J. M. Humberstone (o 2 Chwefror 2005)  
Y Cyng. Mrs E. McIlveen (o 2 Chwefror 2005)  
Y Cyng. M. C. Wilkins (o 2 Chwefror 2005)

SEFYDLIADAU YNG NGHYMRUS

Cymdeithas Hynafiaethau Cymru:  
Cyngor yr Eisteddfod Genedlaethol:

Cymdeithas Amgueddfa Genedlaethol Cymru:  
Cyngor Amgueddfeydd Cymru:  
TUC Cymru:  
Cyngor CBI Cymru:  
Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol:  
Cyngor Celfyddydau Cymru:  
Bwrdd Croeso Cymru:  
Ymddiriedolaethau Bywyd Gwylt Cymru Cyf:  
Cyngor Cefn Gwlad Cymru:  
Cyngor Archaeoleg Prydain:  
Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Oriolau Cymru:

D. Moore (o 24 Chwefror 2005)  
G. E. Humphreys (hyd 18 Hydref 2004)  
R. Alun Evans (o 18 Hydref 2004)  
H. Looker  
Y Cyng. R. Francis-Davies  
A. Wellington  
Gwag  
M. A. McLaggan  
G. Talfan Davies  
J. Jones  
Gwag  
Y Prif Weithredwr  
F. L. Llewelyn  
C. J. Delaney



## **Y CYNGOR**

(O 1 Ebrill 2004 i 15 Awst 2005)

### **LLYWYDD**

Paul E. Loveluck CBE, YH

### **CYN-LYWYDD DIWETHAF**

Mathew Prichard CBE, DL, BA

### **IS-LYWYDD**

Dr Susan J. Davies BA

### **TRYSORYDD**

G. Wyn Howells ACIB

### **PENODWYD GAN LYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU**

Dr P. T. Warren CBE, MA

Yr Athro. D. Egan (hyd 9 Rhagfyr 2004)

H. R. C. Williams

Rhiannon Wyn Hughes MBE

### **PENODWYD GAN LYSY LLYWODRAETHWYR**

D. Bowen Lewis

Dr W. B. Willott CB

Yr Athro J. Last CBE

Dr Iolo ap Gwynn

### **PENODWYD GANY CYNGOR**

J. W. Evans CBE, MA

Yr Athro C. L. Jones OBE, FRSA

M. A. J. Salter FCA (hyd 28 Hydref 2004)

Jane Pierson Jones MA, FMA

## **BWRDD RHEOLI**

(O 1 Ebrill 2004 i 15 Awst 2005 )

Cyfarwyddwr Cyffredinol AOCC

Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil

(Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol)

Cyfarwyddwr Cyllid

Cyfarwyddwr Amgueddfa Werin Cymru

Cyfarwyddwr yr Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol

Cyfarwyddwr Gweithredol

Cyfarwyddwr Cyfathrebu

Michael Houlihan

Eurwyn Wiliam

Jon Sheppard

John Williams-Davies

Michael Tooby

Mark Richards

Robin Gwyn

---

## DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R CYNGOR A'R CYFARWYDDWR CYFFREDINOL

O dan adran 9(4) o Ddeddf Amgueddfeydd ac Oriolau 1992, rhaid i Fwrdd Ymddiriedolwyr (Cyngor) Amgueddfa Genedlaethol Cymru baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer bob blwyddyn ariannol ar ffurf ac ar sail a bennir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, gyda chaniatâd y Trysorlys. Caiff y cyfrifon eu paratoi i ddangos darlun gwir a theg o weithgareddau ariannol yr Amgueddfa yn ystod y flwyddyn a'i sefyllfa ariannol ar ddiwedd y flwyddyn.

Wrth baratoi'r cyfrifon rhaid i'r Ymddiriedolwyr:

- gadw at gyfarwyddyd cyfrifon Cynulliad Cenedlaethol Cymru gan gynnwys y gofynion cyfrifo a datgelu perthnasol, a'u defnyddio nhw a'r polisiau cyfrifo perthnasol mewn ffordd gyson;
- barnu ac amcangyfrif mewn ffordd resymol a chall;
- nodi a yw'r safonau cyfrifo a'r datganiadau o arferion cymeradwy perthnasol wedi cael eu dilyn a datgelu ac esbonio unrhyw eithriadau o bwys yn y datganiadau ariannol; a
- pharatoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes hyfyw, oni bai ei bod yn amhriodol rhagdybio y bydd AOCC yn parhau i weithredu.

Mae Prif Swyddog Cyfrifo Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi dynodi mai'r Cyfarwyddwr Cyffredinol fydd Swyddog Cyfrifo Amgueddfa Genedlaethol Cymru. Mae Memorandwm Swyddogion Cyfrifo Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a gyhoeddwyd gan y Trysorlys, yn disgrifio cyfrifoldebau perthnasol y Cyfarwyddwr Cyffredinol fel Swyddog Cyfrifo, gan gynnwys bod yn gyfrifol am sicrhau priodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'n atebol amdano a chadw cofnodion priodol. Mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol hefyd yn gyfrifol am gadw'r datganiad o gyfrifon yn gyfoes lle bo hwnnw'n cael ei gyhoeddi'n electronig.



## DATGANIAD AR Y SYSTEM REOLI FEWNOL

### 1. Cwmpas y cyfrifoldeb

Mae'r Swyddog Cyfrifo a'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw system rheoli fewnol gadarn sy'n helpu i wireddu'r polisiau, y nodau ac amcanion a bennwyd gan y Cyngor ar gyfer Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru, a hynny wrth amddiffyn y cronfeydd a'r asedau cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifo yn bersonol gyfrifol amdanynt yn unol â'r cyfrifoldebau a roddwyd iddo o ran Cyfrifon y Llywodraeth.

### 2. Pwrpas y system reoli fewnol

Bwriad y system reoli fewnol yw rheoli yn hytrach na dileu unrhyw risg o fethu â chyflawni polisiau, nodau ac amcanion; nid yw'n rhoi sicrwydd llwyr o effeithiolrwydd ond mae'n cynnig sicrwydd rhesymol.

Wrth wraidd y system rheoli fewnol mae fframwaith o wybodaeth gyson i reolwyr, rheoliadau ariannol, trefniadau gweinyddol, gan gynnwys rhannu dyletswyddau a dirprwyo ar wahanol lefelau yn ôl cyfarwyddyd Trysorlys ei Mawrhydi, Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chyngor Amgueddfa Genedlaethol Cymru (yr Ymddiriedolwyr). Proses barhaus yw hon i nodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisiau, nodau ac amcanion AOCC, pwysu a mesur tebygolrwydd y risgiau hyn a'u heffaith, a'u rheoli mewn ffordd effeithlon, effeithiol a darbodus. Roedd y system rheoli fewnol yn gweithredu drwy gydol y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2005, a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad a'r cyfrifon blynyddol, ac mae'n cyd-fynd â chanllawiau'r Trysorlys.

### 3. Gallu i ymdrin â risg

Cyfrifoldeb y Bwrdd Rheoli yw rheoli risg o ddydd i ddydd, ac mae'r Grŵp Rheoli Risg yn cyflawni'r adolygiadau ffurfiol. Mae'r is-bwyllgor Adolygu Perfformiad y Cyngor a'r Pwyllgor Archwilio annibynnol yn astudio'r adolygiadau hyn. Drwy dynnu ar brofiad yr archwilwyr mewnol sy'n mynychu'r adolygiadau risg, a thrwy brofiad aelodau annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio, mae'r broses yn cael ei hadnewyddu'n barhaus trwy gymharu â sefydliadau eraill.

### 4. Y Fframwaith Risgiau

Grŵp trawsadrannol penodol sy'n cyflawni'r adolygiadau Rheoli Risg ac yn adolygu cynnydd wrth reoli risgiau mawr, gan gynnwys diogelwch parhaus casgliadau'r Amgueddfa. Mae'r grŵp yma'n trafod yn gyson unrhyw newidiadau a allai fygwth cyflawni nodau AOCC gyda phob Pennaeth Adran. Yn ogystal, mae'r Cyngor, a'r Pwyllgorau Adolygu Perfformiad ac Archwilio yn gofyn i'r grŵp ystyried risgiau penodol posibl.

Mae'r Polisi a Chanllawiau Rheoli Risg yn gosod y fframwaith swyddogaethau a chyfrifoldebau rheoli risg ynghyd â chanllawiau adnabod, asesu, monitro a rheoli risg.

---

## 5. Adolygiad o effeithiolrwydd

Y Swyddog Cyfrifo sy'n gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system reoli fewnol hefyd. Mae gwaith y Bwrdd Rheoli, y Grŵp Rheoli Risgiau, yr archwilwyr mewnol, yr Ymddiriedolwyr a'r Pwyllgor Archwilio – sy'n goruchwyllo gwaith yr archwilwyr mewnol – a sylwadau archwilwyr allanol eraill yn eu llythyrau rheoli ac adroddiadau eraill yn bwydo'r gwaith o adolygu effeithiolrwydd y system rheoli fewnol. Mae yna gynllun i fynd i'r afael ag unrhyw wendidau sy'n codi ac i sicrhau gwelliannau parhaus.

Mae AOCC wedi sefydlu'r prosesau canlynol i ategu'r fframwaith rheoli risgiau er mwyn cynnal system effeithiol o reolaeth fewnol:

- Systemau cyllidebu cynhwysfawr gyda chyllideb flynyddol sy'n cael ei chymeradwyo gan yr Ymddiriedolwyr a'i hadolygu'n rheolaidd gan y Rheolwyr, y Cyfarwyddwyr a'r Ymddiriedolwyr, ar ffurf adroddiadau ariannol chwarterol sy'n disgrifio perfformiad ariannol yn erbyn y rhagolygon;
- Pennu targedau er mwyn mesur perfformiad ariannol a pherfformiad arall a monitro'r cynnydd yng nghyfarfodydd chwarterol y Pwyllgor Adolygu Perfformiad;
- Canllawiau clir ar gyfer rheoli buddsoddiadau cyfalaf;
- Adroddiadau chwarterol i'r Cyngor gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio;
- Adroddiadau cyson gan yr archwilwyr mewnol yn ôl safonau a bennir yn Llawlyfr Archwilio Mewnol y Llywodraeth, sy'n cynnwys barn annibynnol yr Archwilydd Mewnol ar ba mor ddigonol ac effeithiol yw'r system rheoli fewnol ac yn rhoi argymhellion ar gyfer gwella.

*Michael Houlihan*  
Swyddog Cyfrifo a Chyfarwyddwr Cyffredinol  
Cymeradwywyd a llofnodwyd  
ar 15 Awst 2005

*G. Wyn Howells*  
Trysorydd, ar ran y Cyngor  
Cymeradwywyd a llofnodwyd  
ar 15 Awst 2005





## **TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU I AELODAU CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

Rwy'n tystio fy mod i wedi archwilio'r datganiadau ariannol ar dudalennau 19 i 36 dan Adran 9(4) o Ddeddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992. Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol fel y'i diwygiwyd gan yr adbrisiad o asedau sefydlog a'r polisïau cyfrifo a ddisgrifir ar dudalennau 22 a 23.

### **Cyfrifoldebau'r Cyngor, y Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Archwilwyr**

Fel y disgrifiwyd ar dudalen 14, mae'r Cyngor a Chyfarwyddwr Cyffredinol Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru, fel y Swyddog Cyfrifo, yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992 a chyfarwyddyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru a wnaed odanynt, ac am sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol. Mae'r Cyngor a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol hefyd yn gyfrifol am baratoi gweddill cynnwys yr adroddiad blynyddol. Mae fy nghyfrifoldebau i, fel archwiliwr annibynnol, wedi eu sefydlu drwy statud. Rwy'n cadw safonau a chanllawiau'r Bwrdd Arferion Archwilio mewn golwg ynghyd â'r canllawiau moesol sy'n berthnasol i'r proffesiwn archwilio.

Byddaf yn adrodd fy marn ynghylch p'run a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg ac a gawsant eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992 a'r cyfarwyddyd a wnaed yn ôl y gofynion hynny gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Byddaf yn adrodd fy marn o ran a gafodd y gwariant a'r incwm, ym mhob modd perthnasol, eu cymhwyso ar gyfer y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ac a yw'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Byddaf hefyd yn adrodd os yw'r Rhagair yn anghyson â'r datganiadau ariannol yn fy marn i, os na fydd yr Amgueddfa wedi cadw cofnodion cyfrifo priodol, neu os na fyddaf yn derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau angenrheidiol ar gyfer fy archwiliad.

Byddaf yn ystyried a yw'r datganiad ar dudalennau 15 ac 16 yn dangos bod yr Amgueddfa wedi cydymffurfio â chanllawiau 'llywodraethu corfforaethol: datganiad ar system rheolaeth ariannol fewnol' y Trysorlys. Byddaf yn nodi os nad yw'n bodloni gofynion y Trysorlys, neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall rwy'n ymwybodol ohoni o archwilio'r datganiadau ariannol. Nid oes gofyn i mi ystyried, ac nid wyf wedi ystyried, a yw Datganiad y Swyddog Cyfrifo ar Reoli Mewnol yn cwmpasu'r holl risgiau. Hefyd nid oes gofyn i mi roi barn ar effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu corfforaethol yr Amgueddfa na'i threfniadau risg a rheoli.

### **Sail y farn**

